Ddeddf Cwmnïau 2006

Tŷ'r Cwmnïau
er gwybodaeth

deddf enllib a chofrestru newyddiadur

GPO3 CYM - Mai 2011



BIS
GWASANAETH GAN BIS

Mae'r canllaw hwn ar gael mewn ffurfiau eraill gan gynnwys Braille, print mawr a thâp clywedol. Am fanylion pellach gweler ein gwefan – www.companieshouse.co.uk neu e-bostiwch ein hadran ymholiadau ar enquries@companieshouse.gov.uk neu ffoniwch ein canolfan gysylltu ar 0303 1234 500.

Cynnwys

Cyflwyniad

Pennod 1. Cyfrifoldebau ffeilio

Pennod 2. Gwybodaeth Bellach

Mae'r canllaw hwn yn ateb llawer o gwestiynau mynych ac yn cynnig gwybodaeth ar ffeilio'r mathau mwyaf cyffredin o wybodaeth yn y maes hwn. Nid ydym wedi drafftio'r canllaw gyda thrafodion anarferol na chymhleth mewn golwg. Mae'n bosibl y bydd angen gofyn am gyngor proffesiynol arbenigol o dan yr amgylchiadau hynny.

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn egluro pa ddogfennau sydd angen i chi ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau ynglyn â chofrestriad perchennog papur newydd.

Os ydych yn ystyried cofrestru, dylech gyfeirio at y ddeddfwriaeth sy'n llywio'r drefn o gofrestru, neu dylech gael cyngor cyfreithiol. Gellwch gael hyd i'r gyfraith berthnasol yn Neddf Enllib a Chofrestru Papurau Newydd 1881.

Pennod 1
Cyfrifoldebau ffeilio

1. Beth yw papur newydd?

Mae Adran 1 o Ddeddf Enllib a Chofrestru Papur Newydd 1881 (y Ddeddf) yn diffinio 'papur newydd' fel unrhyw bapur sy'n cynnwys newyddion i'r cyhoedd, gwybodaeth, neu ddigwyddiadau, neu unrhyw sylwadau neu arsylwadau yn y papur sy'n cael ei argraffu i'w werthu, ac a gyhoeddir yn Lloegr, Cymru neu yn Iwerddon yn gyfnodol, neu mewn rhannau neu rifau yn gyfnodol sy'n llai na 26 diwrnod rhwng cyhoeddi unrhyw ddau bapur, dwy ran neu ddau rif. Nid yw'r Ddeddf hon yn berthnasol i'r Alban.

Mae'n cynnwys hefyd unrhyw bapur sy'n cynnwys hysbysiadau yn unig neu'n bennaf a argraffir er mwyn ei ddosbarthu, a'i gyhoeddi'n wythnosol neu'n amlach na hynny (er nad ar ysbeidiau o dros 26 diwrnod).

2. Pwy ddylai gofrestru?

Nid oes unrhyw ofyniad yn y Ddeddf i berchennog neu gynrychiolydd perchennog papur newydd gofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Fodd bynnag, mae gofyn i bapurau newydd ffeilio ffurflen (ffurflen NLR1) ar neu erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn yn Nhŷ'r Cwmnïau yng Nghaerdydd neu ym Melffast.

Yn ogystal, mae angen i unrhyw barti i drosglwyddo unrhyw gyfran neu fuddran mewn unrhyw bapur newydd ffeilio ffurflen (ffurflen NLR2) i hysbysu Tŷ'r Cwmnïau am unrhyw newidiadau o ran perchnogion y papur newydd.

Fodd bynnag, nid oes angen ffeilio'r ffurflenni perthnasol gyda Thŷ'r Cwmnïau os yw'r papur newydd:

- ym mherchnogaeth cwmni a ffurfiwyd ac a gofrestrwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, neu un o'i rhagflaenwyr (neu'r ddeddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon neu wedi ei gorffori yn un o Wladwriaethau eraill yr AEE);
- yn gyfnodolyn a gyhoeddir ar hyn o bryd neu y bydd yn cael ei gyhoeddi yn gyfnodol sy'n fwy na 26 diwrnod;
- ar hyn o bryd neu yn y dyfodol yn cael ei cyhoeddi yn rhad ac am ddim (oni bai ei fod yn cynnwys hysbysebion yn bennaf.

3. Pa fanylion y mae angen eu ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau?

Fel rheol gyffredinol, rhaid cofrestru enwau'r holl berchnogion gyda Thŷ'r Cwmnïau. Fodd bynnag, lle byddai'n anghyfleus cofrestru'r holl enwau, gall yr

Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau awdurdodi cofrestru un neu ragor o 'berchnogion cynrychiadol' yn lle. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, lle bo nifer fawr o berchnogion, neu lle nad yw'r perchnogion yn y DU.

Os hoffech chi gofrestru 'perchnogion cynrychiadol' ar y sail hon, dylech ysgrifennu at y Cofrestrydd gan ddisgrifio'r rhesymau pam ei bod yn anghyfleus cofrestru enwau'r holl berchnogion. Dylech ddarparu gwybodaeth hefyd i ddangos bod y cynrychiolwyr arfaethedig mewn sefyllfa dda i ymdrin ag unrhyw hawliadau ar gyfer enllib neu hawliadau eraill sy'n codi mewn perthynas â rheolaeth y papur newydd.

Gellir cael copïau o'r Ffurflen NLR1 o Dŷ'r Cwmnïau yng Nghaerdydd neu Belffast – mae'r cyfeiriadau ym mhennod 2 o dan Gwybodaeth Bellach.

4. Sut mae mynd ati i ffeilio'r ffurflen NLR1?

Llenwch y ffurflen NLR1 sydd ar gael ar ein gwefan a'i hanfon at y Cofrestrydd Cwmnïau yng Nghaerdydd neu Belffast ynghyd â'r ffi ffeilio o £10. Bydd y Cofrestrydd yn anfon llythyr atgoffa at bob papur newydd cofrestredig ychydig cyn y dyddiad cyflwyno.

5. Pa ddogfennau eraill y mae'n rhaid eu ffeilio?

Os ceir unrhyw newid o ran y perchnogion cofrestredig ar unrhyw adeg arall o'r flwyddyn, dylid hysbysu am hyn gan ddefnyddio'r ffurflen NLR2. Mae'r ffurflen hon ar gael ar ein gwefan.

Os newidiwyd enw'r papur newydd yn ystod y flwyddyn, dylid cofnodi'r enw ar y ffurflen flynyddol nesaf (ffurflen NLR1). Ar ffurflen NLR1, dylid nodi'r enw gwreiddiol ar dudalen un a'r enw newydd yng ngholofn un ar dudalen dau.

6. Pa ffioedd sy'n daladwy i'r Cofrestrydd?

Diddymwyd yr hen ffioedd gan baragraff 1 o Atodlen 1 o Orchymyn 2009 (Diwygiadau Ôl-ddilynol, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) Ddeddf Cwmnïau 2006. Daeth hyn i rym ar 1 Hydref 2009.

O 1 Hydref 2009 ymlaen, dylid cyflwyno ffi o £10 gyda phob ffurflen NLR1. Dylid ysgrifennu Sieciau ac Archebion Post i 'Tŷ'r Cwmnïau' a'u hanfon gyda'r ffurflen i'r cyfeiriad priodol a nodir ym mhennod 2.

8. A ddiogelir enw'r papur newydd cofrestredig?

Nid yw cofrestru o dan y Ddeddf yn diogelu enw'r papur newydd; gellir cofrestru rhif y gwlith o bapurau dan yr un enw. Gellir diogelu enw drwy ei gofrestru fel nod masnach. Gellir cael rhagor o wybodaeth oddi wrth Gofrestrfa Nodau Masnach y Swyddfa Eiddo Deallusol y DG ar:

Ffôn: 08459 500505

E-bost: mailto:enquiries@ipo.gov.uk

Gwefan: www.ipo.gov.uk

Newidiodd y Swyddfa Batentau ei henw i Swyddfa Eiddo Deallusol y DG (UK-IPO) ar yr 2ail o Ebrill 2007

Pennod 2
Gwybodaeth bellach

1. Ble ellir cael golwg ar y ffurflenni?

Gellir cael golwg ar ffurflenni sy'n dwyn manylion am bapurau newydd sydd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru o dan y Ddeddf yn

Tŷ'r Cwmnïau

Ffordd y Goron
Caerdydd
CF14 3UZ

Hefyd gellir cael golwg arnynt drwy roi deuddydd o rybudd yn:

Ystafell Chwilio Llundain

Tŷ'r Cwmnïau

21 Bloomsbury Street
London
WC1B 3XD
(dylid ffonio: 0303 1234 500 gydag unrhyw ymholiadau).

Yr un yw'r trefniadau yng Ngogledd Iwerddon lle dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at y

Registrar of Companies
Companies House
Second Floor
The Linenhall
32-38 Linenhall Street
Belfast
BT2 8BG
DX 481 N.R. Belfast 1

2. Ble mae cael gafael ar ffurflenni a llyfrynnau canllaw?

Un o gyfres o lyfrynnau Tŷ'r Cwmnïau yw hwn sy'n ganllaw syml i'r Ddeddf Cwmnïau.

Mae ffurflenni statudol a chanllaw ar gael yn ddi-dâl oddi wrth Tŷ'r Cwmnïau. Y ffordd gyflymaf o gael gafael arnynt yw drwy'r wefan hon neu drwy ffonio 0303 1234 500.

Hefyd gellir cael ffurflenni oddi wrth lyfrwerthwyr cyfraith cwmnïau, cyfrifwyr, cyfreithwyr ac asiantau ffurfio cwmnïau – gallwch dod o hyd eu cyfeiriadau mewn llyfrau ffôn busnesau.

3. Sut mae anfon gwybodaeth at y Cofrestrydd?

Gellwch drosglwyddo dogfenni at y Cofrestrydd drwy law (yn bersonol neu drwy gludwr) gan gynnwys ar adegau y tu allan i oriau swyddfa, gwyliau banc a'r penwythnos yng Nghaerdydd a Belffast.

Hefyd gellwch anfon dogfenni drwy'r post neu drwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Dogfenni (DX). Os ydych yn anfon dogfenni, a fyddech gystal â'u cyfeirio at:

Ar gyfer papurau newydd corfforedig yn Lloegr a Chymru:	**Ar gyfer papurau newydd corfforedig yng Ngogledd Iwerddon:**
Y Cofrestrydd Cwmnïau Tŷ'r Cwmnïau Ffordd y Goron Caerdydd CF14 3UZ DX33050 Caerdydd 1	The Registrar of Companies Companies House Second Floor The Linenhall 32-38 Linenhall Street Belfast Northern Ireland BT2 8BG DX 481 N.R. Belfast 1

Os ydych yn anfon dogfenni drwy'r post, cludwr neu Gwasanaeth Cyfnewid Dogfenni (DX) ac yn dymuno cael derbynneb, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn rhoi cydnabyddiaeth i chi os ydych yn amgáu copi o'ch llythyr eglurhaol ac amlen wag sy'n dwyn eich enw a'ch cyfeiriad a stamp. Byddwn yn barcodio'ch copi o lythyr gyda'r dyddiad derbyn a'i ddychwelyd atoch yn yr amlen a ddarparwyd.

Noder os gwelwch yn dda: nid yw cydnabod bod dogfen wedi dod i law yn golygu bod dogfen wedi'i derbyn ar gyfer ei chofestru yn Nhŷ'r Cwmniau.

Noder os gwelwch yn dda: Nid yw Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn cyfrifon nac unrhyw ddogfen statudol arall drwy ffacs.

sut i gyswllt â ni

canolfan cyswllt a gwybodaeth: **0303 1234 500**
(Er dibenion hyfforddi a sicrhau ansawdd, fe allai eich galwad gael ei monitro)

mini-com: 029 2038 1245
enquiries@companieshouse.gov.uk
www.tyrcwmniau.gov.uk

Caerdydd: Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron, Caerdydd CF14 3UZ

Caeredin: Companies House
Fourth Floor, Edinburgh Quay 2,
139 Fountainbridge, Edinburgh, EH3 9FF

Llundain: Companies House
21 Bloomsbury Street, London, WC1B 3XD

Belfast: Companies House,
Second Floor, The Linenhall,
32-38 Linenhall Street, Belfast, BT2 8BG

Am y fersiwn y mwyaf diweddaraf o'r llyfryn hwn, gweler ein gwefan:

www.tyrcwmniau.gov.uk

Dyfarnwyd am Ragoriaeth